



Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref

Mick Antoniw AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

6 Rhagfyr 2018

Annwyl

Ysgrifennaf fel ymateb i adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Craffu ar reoliadau a wneir o dan y Bil Masnach*, a gyhoeddwyd ar 8 Hydref. Er bod yr adroddiad yn canolbwyntio'n benodol ar y Bil Masnach, sy'n perthyn i'm cyfrifoldebau portffolio i, mae'n codi materion ehangach yn ymwneud â deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â Brexit. Wrth ymateb i'r adroddiad, amlinellais farn Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r pwyntiau ehangach hyn.

Mae argymhellion un i saith yn yr adroddiad yn ymwneud â barn y pwyllgor y dylai rheoliadau a wneir o dan gymal 1 o'r Bil Masnach fod yn destun y mecanwaith sifftio sydd wedi'i gynnwys yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (Deddf 2018). Mae ein hymateb i'r argymhellion hyn i'w gweld isod.

Roedd y mecanwaith sifftio a gyflwynwyd o dan Ddeddf 2018 yn ddatrysiaid y daethpwyd o hyd iddo er mwyn mynd i'r afael â set benodol iawn o amgylchiadau. Nid oes gan Lywodraeth Cymru wrthwynebiad mewn egwyddor i rôl fanylach ar gyfer deddfwrfeydd pan fo amgylchiadau yn cyfiawnhau hynny. Fodd bynnag, nid yw cymal 1 o'r Bil Masnach yn bodloni'r trothwy yn ein barn ni.

Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'n briodol sifftio mewn perthynas ag is-ddeddfwriaeth sy'n llifo o ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n gysylltiedig â Brexit mewn achosion lle mae'r pŵer:

- yn eang iawn ei gwmpas;
- yn gallu cael ei arfer ar yr un pryd neu ar y cyd gan Weinidogion y DU a Gweinidogion Cymru;
- yn gallu cael ei ddefnyddio i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol;
- yn destun y weithdrefn a ddewisir gan y weithrediaeth ar adeg y gosod.

Mewn achosion o'r fath, mae Llywodraeth Cymru yn fodlon i Reol Sefydlog 27.9B gael ei chymhwyso, yn hytrach na'r gofyniad a roddir ar Weinidogion y DU gan baragraff 3(7) o Atodlen 7 i'r Ddeddf 2018 y cyfeirir ati yn argymhelliad 3, am y rhesymau a amlinellir yn adroddiad y Pwyllgor Busnes, *Diwygiadau Arfaethedig i Reolau Sefydlog 21, 27, 30B a 30C - Gweithredu Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018*, a gyhoeddwyd ar 3 Hydref.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt: Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru)  
[Correspondence.Ken.Skates@gov.wales](mailto:Correspondence.Ken.Skates@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mewn perthynas â phwynt a, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod y pŵer i wneud rheoliadau o dan gymal 1 o'r Bil Masnach yn eang yn y synnwyr y gellid ei ddefnyddio i wneud newidiadau mawr a bach i'r Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau.

Fodd bynnag, nid ydym yn ystyried bod y pŵer cymal 1, er ei fod yn canolbwyntio ar ymrwymïadau'r Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau, yn ddigon eang i gyfiawnhau mecanwaith sifftio. Ni ellir defnyddio'r pŵer heblaw ar gyfer gweithredu ymrwymïadau y mae Llywodraeth y DU wedi cytuno iddynt eisoes, ac ni ellir ei ddefnyddio i addasu'r ymrwymïadau hynny. Gellir arfer disgrisiwn yn y ffordd y gweithredir yr ymrwymïadau hynny yn unig. Gan fod yr ymrwymïadau yn canolbwyntio ar gaffael cyhoeddus, mae'n anodd rhagweld amgylchiadau lle y byddai'r ffordd o weithredu, yn hytrach na'r ymrwymïad ei hun, yn achos pryder mawr.

Mewn perthynas â phwynt b, dim ond ar yr un pryd neu ar y cyd y gellid arfer y pŵer cymal 1.

Mewn perthynas â phwynt c, nid ydym yn gweld unrhyw beth yng nghymal 1 sy'n awgrymu y gellid defnyddio'r pŵer i ddiwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 nac unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol arall, ar wahân i allu dweud bod deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir yn ddeddfwriaeth sylfaenol (ac felly nid yw'r diwygiadau a gynigir gan y pwyllgor yn argymhelliad chwech yn angenrheidiol).

Yn olaf, mewn perthynas â phwynt d, mae'r pŵer cymal 1 yn destun y weithdrefn negyddol – nid oes gan Weinidogion y DU na Gweinidogion Cymru unrhyw ddewis o ran y weithdrefn i'w defnyddio.


Felly, yn ein barn ni nid yw'r pŵer cymal 1 yn bodloni'r meini prawf ac nid yw mecanwaith sifftio yn briodol.

Rydym yn croesawu ac yn cefnogi argymhelliad wyth, sy'n ymwneud â chymhwyso egwyddorion y Cytundeb Rhynglywodraethol i'r Bil Masnach. Rydym yn disgwyl i'r negodiadau ar yr holl ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â Brexit, gan gynnwys y Bil Masnach, gael eu cynnal yn unol â'r egwyddorion a welir yn y Cytundeb Rhynglywodraethol.

Rydym hefyd yn cefnogi argymhelliad naw, sy'n ymwneud ag ymestyn i Weinidogion Cymru y ddyletswydd i osod adroddiadau o dan gymal 5. Rydym yn hapus i osod adroddiadau o'r fath gerbron y Cynulliad Cenedlaethol yn yr un modd y bydd Gweinidogion y DU yn gosod adroddiadau gerbron Senedd y DU.

Hoffwn ddiolch i'r pwyllgor am ystyried y materion hyn ac am ei adroddiad. Hyderaf fod yr ymateb hwn o gymorth ichi graffu ar y Bil Masnach ac edrychaf ymlaen at barhau i weithio gyda'r pwyllgor.

Yn gywir



**Ken Skates AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth  
Cabinet Secretary for Economy and Transport